

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MISOL
4 Medi 2017 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Watts, Richard Jones, Rhydwen Roberts, Ifor Jones
Cadeirio: Glyn Griffiths
Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Cynghorydd Llio Griffiths

2. DATGAN BUDDIANT

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Torri Coed B54110

Mae Cyngor Gwynedd wedi nodi mai perchnogion y tir wrth ochr y ffordd sydd yn gyfrifol am dorri unrhyw goed sy'n amharu ar y ffordd.

Maent wrthi'n cysylltu efo'r perchogion gan ofyn iddynt wneud y gwaith. Os na fyddant yn cytuno, yna rhaid fydd danfon Rhybuddion i'r perchnogion yn gorchymyn gwneud y gwaith. Os yw hyn yn methu bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud y gwaith eu hunain ac yn ceisio ad-daliad o'r gost gan y perchnogion tir.

4.2 Llwybrau Cyhoeddus

Mae angen torri'r llwybrau cyhoeddus. Cafwyd cwyn yn benodol am y llwybr sy'n mynd heibio Plas yn Rhiw ger Penrhyndeudraeth. Mae'r tyfiant yno yn drwm, ac felly mae angen cymryd camau i'w dorri yn fuan.

Bydd y Clerc yn gofyn i'r contractwyr wneud y gwaith fel blaneoriaeth, ac i'r llwybrau eraill gael eu gwneud yn eu tro.

4.3 Arosfan Fysiau

Rhoddod y Clerc fanylion prisiau. Mae'n rhaid prynu arosfan o fath Chiltern, ond ceir gwahanol fathau o'r rhain, yn amrywio o ran maint a'r cysgod y maent yn eu rhoi.

Dyma gostau'r arosfan rataf:-

£2778 am arosfan gyda chysgod ar un ochr yn unig (seti ac ychwanegion eraill am bris ychwnaegol

£180 costau cludant i Llanfrothen

Costau gosod a gosod pafin i'r anabl £750

Bu i'r Clerc holi Cyngor Gwynedd pe byddai'n bosibl adleoli arosfa fysiau Llanfrothen y tu allan i'r siop. Fel yna gallai'r rhai sydd yn disgwyl am y bws ddefnyddio'r cysgod sydd yn cael ei ddarparu gan y siop, heb fod angen am arsofan fysiau. Mae Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu hyn.

Awgrymodd y Cyngorydd Dafydd Watts y byddai hi'n werth edrych am ffynhonnellau eraill o gyllid cyn ystyried y mater ymhellach, e.e. grant treth tirlenwi chwarel Minffordd a Mantell Gwynedd.

4.4 Treth Annomestig a'r Ganolfan

Bu'r Clerc mewn cysylltiad efo'r Swyddfa Brisio. Wedi trafod y mater, cytunwyd fod posibilrwydd fod y Swyddfa Brisio wedi gor-brisio gwerth trethiannol Y Ganolfan Gymdeithasol.

Bydd y Clerc yn cael sgwrs bellach efo'r Swyddfa Brisio er mwyn trafod y i gytundeb, yr opsiwn nesaf yw gwneud apêl i'r Tribiwnlys Prisio

Cytunwyd hefyd y byddai'n beth da sefydlu Is-bwyllgor i drafod y defnydd a chostau'r Ganolfan. Cytunodd y Cadeiryddi i sefydlu'r Is-bwyllgor.

4.5 Paentio Giat y Fynwent

Mae'r Clerc wedi gofyn i D.G.Pritchard, Porthmadog i baentio giat y fynwent ar gost o £300

4.6 Comisiynydd y Gymraeg a chwyn yn erbyn Swyddfa Archwilio Cymru/BDO

Bu i'r Comisiynydd ohebu gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar y mater. Gofynnodd y Clerc i Swyddfa'r Comisiynydd ar achlysuron niferus am ddiweddariad, ond heb lwyddiant. Mynegwyd rhwystredigaeth am ddiffyg ymateb y Comisiynydd, ac fe ofynnwyd i'r Clerc wneud cwyn swyddogol i'r Comisiynydd am eu diffyg ymateb os na fydd ateb yn fuan.

4.7 Cytundeb Delwedd

Mae cytundeb Delwedd am y wefan yn dod i ben ym Mai 2018.
Penderfynwyd trafod y mater ymhellach ddechrau'r flwyddyn.

5. Gohebiaeth

- **Newyddlen Ymddiriedolaeth Syr Clough Williams Ellis** – derbyniwyd er gwybodaeth
- **Uned Polisi Cynlluo ar y Cyd Gwynedd a Môn** – cynllun wedi ei fabwysiadu

6. Biliau i'w talu

- **Treth Fusnes £105 y mis** – talu Gorffennaf, Awst, Medi a Hydref
- **Scottish Power £844.32**
- **Cyfrifiadur Acer £499.92**
- **Snowdonia Fire Protection £156.32**
- **A.G. Pritchard, trwsio pibell Y Ganolfan £345.00**
- **C.N. Kerr – cost agor bed £380.00**
- **D.G. Pritchard Paentio Giat Fynwent Tan Lan £300.00**

Derbyniwyd £10 am logi'r Ganolfan Gymdeithasol

Derbyniwyd ail daliad Praesept 2017-18 £2,900 30/08/17

Balans yn y Banc 31 Medi 2017 £5879.22

7. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais Cynllunio:C15/0002/19/LL
Beudy Steffan

Doedd dim gwrthwynebiad

8. Cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol

Disgwylir y Ffurflen Flynyddol yn ôl gan BDO, yr Archwilwyr Allanol.

9. MATERION ERAILL

9.1 Lôn Croesor

Mae angen torri'r gwrychoedd ar y ffordd o Blas Brondanw i Croesor. Stâd Brondanw sydd berchen y rhan fwyaf o'r tir. Mae peth o'r ffordd wedi cael ei dorri, ond y rhan fwyaf heb ei gyffwrdd.

9.2 Cynllun Biomass

Bu sôn am greu cynllun Biomass gan ymddiriedolaeth Syr Clough Williams-Ellis y llynedd. Bydd angen trefnu i'r Caderiydd a'r Is-Gadeirydd gyfarfod efo'r ymddireidolwyr yn fuan er mwyn traofd y mtaer yma a chael diweddariad ar faterion eraill.

9.3 Torri tyfiant coed yn y fynwent

Mae angen torri'r tyfiant coed sy'n tyfu rhwng rhai o'r beddi ym Mynwent Tan Lan. Mae'r Clerc wedi gofyn i'r gwaith yma gael ei wneud a disgwylir y bydd yn cael ei wneud yn fuan.

9.4 Meddygfa Penrhyndeudraeth

Oherwydd perygl i dyfodol Meddygfa Penrhyndeudraeth, gan eu bod yn cae trafferth penodi staff, gofynnwy i'r Clerc ysgrifennu at yr Arglwydd Ellis-Thomas AS a Simon Thomas AS yn gofyn iddynt ddwyn pwysau ar Lywodrath cymru i ail-ystried sefydlu Ysgol Feddygol ym Mangor

9.5 Ffordd i Dyddyn Gwyn

Mae angen trwsio'r ffordd acluso sy'n arwain at Dyddyn Gwyn, a thorri'r ochrau.

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: 6 Tachwedd 2017, am 7:30 yh.